**BSWB 34 - Tystiolaeth gan: Cyngor Sir Ynys Môn**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)** | **Bus Services (Wales) Bill**

## 1. Beth yw eich barn am egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

Mewn egwyddor, rydym yn cytuno ag egwyddorion y Bil. Mae angen y ddeddfwriaeth i gyflawni'r polisi. Credwn fod angen i'r Llywodraeth ymyrryd er mwyn cyflawni'r newid sydd wirioneddol ei angen yn y maes.

Credwn fod diffygion clir gyda'r system bresennol. Er ein bod yn croesawu'r newid mae'n rhaid i'r newid gyfarch anghenion pob ardal, boed hynny'n ardal drefol neu'n ardal wledig.

## 2. Beth yw eich barn ar ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn ôl Rhannau, isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 1 - Cysyniadau allweddol ac amcanion cyffredinol (adrannau 1 i 4)**

Mae Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn cael ei gyflwyno ar adeg pan fo siwrneiau teithwyr ar fysiau a'r pellter a deithwyd gan fysiau lleol wedi wynebu dirywiad tymor hir yng Nghymru, sydd wedi ei amlygu gan ystadegau niferoedd teithwyr ym Môn. O dan y Bil, bydd rhwydweithiau bysiau yng Nghymru yn cael eu cynllunio a'u gweithredu fel un system. Yn ei dro, bydd hyn yn golygu newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau bysiau eu trefnu a'u darparu gyda'r gobaith o sicrhau rhwydwaith cydlynol ac integredig. Rydym yn llwyr gefnogol i hynny.

Credwn fod darpariaethau'r Bil yn eithaf ymarferol ar gyfer gwneud hynny.

Byddai'r Bil yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd, a fyddai'n gwneud hi'n

haws i sefydlu un tocyn ar gyfer y rhwydwaith gyfan a'r her sy'n bodoli ers blynyddoedd ble nad yw amserlenni wedi ei cysoni. Hynny yw, mae un gwasanaeth bws wedi cyrraedd lleoliad penodol ac o'r lleoliad hwnnw mae gwasanaeth arall wedi gadael ychydig yn gynharach tra nad yw y tocynnau yn ddilys rhwng dau wahanol ddarparwr chwaith.

## 3. Beth yw eich barn ar ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn ôl Rhannau, isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 2 - Swyddogaethau gweinidogion cymru sy'n ymwneud â gwasanaethau bysiau lleol (adrannau 5 i 20)**

Mewn egwyddor, rydym yn cytuno â swyddogaethau gweinidogion Cymru yn ymwneud â gwasanaethau bysiau lleol.

Mae'r hyn a nodir ym mhwynt 10.32 yn nodi'n glir, yn wahanol i ddarpariaeth ariannol bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau bysiau, bydd y dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru o dan y Bil yn rhoi rhywfaint o sicrwydd a pharhad ar gyfer gwaith darparu bysiau. Bydd unrhyw gynnydd neu ostyngiad sylweddol yn yr ymrwymiad ariannu ar gyfer gwasanaethau bysiau yn cael ei adlewyrchu yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau i gymunedau ledled Cymru. Yn y dyfodol, bydd cynigion buddsoddi yn cael eu datblygu i Weinidogion Cymru eu hystyried cyn bod unrhyw ymrwymiadau ffurfiol yn cael eu gwneud. Bydd y rhain yn nodi lefelau'r ddarpariaeth sy'n bosibl o fewn y cyllidebau presennol, a'r hyn y gellid ei gyflawni pe bai cyllidebau ychwanegol ar gael i fysiau.

## 4. Beth yw eich barn ar ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn ôl Rhannau, isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 3 - Cyfyngiad ar ddarparu gwasanaethau bysiau lleol (adrannau 21 i 24)**

Rydym yn credu, bydd y Bil yn cyfyngu ar allu gweithredwyr i weithredu gwasanaethau/rhan o wasanaeth er budd masnachol yn unig. Yn lleol, rydym wedi cael ambell i achlysur yn ddiweddar ble mae gweithredwr wedi dewis peidio gwasanaethu ambell i leoliad gwledig gan nad oes budd masnachol iddynt wneud, hynny yw, mae'r lefel defnydd mor isel. Gyda'r broses Trwyddedau

Gwasanaeth Bysiau Lleol arfaethedig, fe ddylai fod hynny'n anoddach i'w wneud, allai yn ei dro ond fod yn beth da.

## 5. Beth yw eich barn ar ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn ôl Rhannau, isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 4 - Gwybodaeth a data (adrannau 25 i 31)**

Rydym yn credu fod pwynt 3.93 yn hynod bwysig. Un o'r prif rhwystrau sydd yn bodoli ers blynyddoedd ar hyn o bryd, yw diffyg parodrwydd gweithredwr eithaf sylweddol yn lleol, (sydd wedi ei enwi fel un o'r chwech mwyaf ym mhwynt D2.12), i rannu gwybodaeth lefelau teithwyr a refeniw. Yn ei dro, mae hynny'n gallu arwain at gymhlethdodau wrth wneud ambell i benderfyniad anodd. Byddai'r data yna o fydd.

Yn ogystal, rhwystr arall sydd wedi bodoli yn lleol yn y cyd-destun yma yw'r angen i newid gwybodaeth ar ochr y stryd, ar adegau sawl gwaith y flwyddyn. Rwyf yn nodi o dabl B-7 Crynodeb o Dybiaethau Modelu Safleoedd Bysiau / Cyfnewidfwydd yn ôl Scenario, byddai newidiadau i amserlenni yn gyfyngedig o fewn cyfundrefn fasnachfreinio – gyda llai o angen i ddiweddaru gwybodaeth ar safleoedd yn aml.

## 6. Beth yw eich barn ar ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn ôl Rhannau, isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 5 – Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol (adrannau 32 i 34)**

Rydym yn credu fod yr hyn sydd wedi ei nodi yn y Bil, ble mae'r Bil yn codi'r gwaharddiad ar Awdurdodau Lleol rhag sefydlu cwmnïau bysiau newydd sy'n eiddo i'r Awdurdod, yn beth da. Byddai angen lefel uchel iawn o arbenigedd er mwyn gwireddu hyn o fewn Awdurdod Lleol ond o leiaf mae'r dewis yno petai angen. Wedi dweud hynny, mae'n bur anhebyg y byddai'r Awdurdod hwn yn dilyn y trywydd hynny yn bennaf oherwydd rhesymau capasiti, ond i Awdurdodau Lleol mwy sydd yn fwy trefol ei naws efallai ei fod yn rhywbeth i'w ystyried.

Mae'r Bil yn adnabod mewnbwn lleol i system o'r fath, rydym yn credu fod

hynny'n allweddol er mwyn sicrhau fod nod system o'r fath yn cael ei gwireddu.

Nodaf fod pwynt 3.96 yn cyfeirio at Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006. Mae'n bosibl i weithredu'r Bil arwain at newidiadau sylweddol i weithredwyr bysiau a'u staff. Credaf fod ystyried yr oblygiadau hynny yn holl bwysig i bawb a fydd yn cael ei effeithio a sicrhau nad yw cwmniau llai mewn ardaloedd gwledig o dan unrhyw anfantais.

## 7. Beth yw eich barn ar ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn ôl Rhannau, isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 6 – Amrywiol a chyffredinol (adrannau 35 i 44)**

Wedi cael sylw mewn rhan arall o'r ateb.

## 8. Beth yw'r rhwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, a sut mae'r Bil yn ystyried y rhwystrau hynny?

Un rhwystr posibl y gallai weld i weithredu darpariaethau'r Bil yw'r gost arfaethedig o'r broses. Mae pwynt 10.25 yn nodi mai cyfanswm y gost o ddiwygio y drefn bresennol yw £623.5m dros 30 mlynedd. Yn ogystal, bydd costau ehangach diwygio'r drefn yn gofyn am fuddsoddiad ychwanegol os yw'r amcanion am gael eu gwireddu. Mae'r swm hynny yn swm eithaf sylweddol.

Risg arall o bosib yw y gall y gystadleuaeth fod mor wael mewn rhai rhannau o Gymru fel na chaiff contractau masnachfreinio eu prisio'n gystadleuol, neu na ddaw dim tendrau i law. Gyda hynny mewn golwg, credwn fod angen i'r pecynnau gwasanaeth amrywio o un parth masnachfraint i'r llall. Byddai hynny yn ei dro yn gobeithio sicrhau nad yw Busnesau Bach a Chanolig yn colli allan.

Un rhwystr arall posibl y gallwn ei ragweld yw fod y gost yn mynd yn rhy uchel i'r holl broses, gan olygu fod y broses wedi codi disgwyliadau teithwyr i lefelau hollol afresymol.

## 9. Pa mor briodol yw y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol)?

Wedi cael sylw mewn rhan arall o'r ateb.

## 10. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn debygol o ddeillio o'r Bil?

Rydym yn nodi o bwynt D3.12 mai nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod yr holl weithredwyr bysiau yn y sector yn darparu gwasanaethau yn unol â'u cryfderau penodol, gan gynnwys Busnesau Bach a Chanolig.

Credwn fod sicrhau fod y busnesau hynny yn parhau i weithredu yn hanfodol bwysig gan fod nifer o Awdurdodau Lleol gwledig yn dibynnu ar y gweithredwyr hynny i gwblhau eu dyletswyddau statudol mewn perthynas a'u anghenion cludiant Addysg.

Rydym yn croesawu yr hyn a nodwyd ym mhwynt D3.9, ble mae'n nodi na fyddai rhai gwasanaethau fel gwasanaethau bysiau cymunedol yn cael eu dal gan y cyfyngiad.

## 11. Beth yw eich safbwyntiau ar asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol y Bil fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol.

Gweler yr ateb i gwestiwn 8. yn gynharach.

## 12. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef, neu unrhyw faterion cysylltiedig?

Rydym yn croesawu'r Bil ac yn ategu'r sylw nad yw'r system bresennol yn gweithio ac felly fod angen newid. Fodd bynnag, hoffem bwysleisio'r angen am Fil a threfnioadau sydd yn cyfarch holl anghenion cludiant cyhoeddus ar draws Cymru – ac nid ateb sydd yn cynnig datrysiad ar gyfer ardaloedd trefol poblog yn unig.

Mae heriau cludiant cefngwlad gwledig yn sylweddol ac nid yw bws traddodiadol

am fod yn gost-effeithiol mewn nifer sylweddol o ardaloedd. Mae felly angen datrysiadau arloesol (cerbydau cludiant Cymunedol, DRT, fflecsi ayyb) sydd yn cysylltu gyda'r brif ddarpariaeth bws a sicrhau fod unrhyw arbedion o fasnachfreintio a thynnu elw y cwmniau mawr, yn cael eu harall-gyfeirio i sicrhau rhyw fath o gludiant addas mewn ardaloedd eraill.

Hoffem gymryd y cyfle yma i nodi ein bod yn ategu'r sylwadau sydd yn ymateb ATCO.